

Mae fersiwn Saesneg o'r ddogfen hon ar gael.

Polisi Ansawdd a Gwella Grŵp CAVC

Ymrwymiad

O fewn y polisi hwn, mae'r term "Grŵp", yn cyfeirio at yr holl ddarparwyr o fewn Grŵp Coleg Caerdydd a'r Fro.

Ategir y polisi hwn gan weledigaeth y Grŵp – Ysbrydoledig, Cynhwysol a Dylanwadol, a bydd yn cefnogi ein gwaith tuag at yrwyr allweddol Ansawdd, Effeithlonrwydd a Thwff. Bydd y polisi yn ymgorffori'r egwyddorion canlynol:

- Rhaid i'r rhai sy'n defnyddio Grŵp Coleg Caerdydd a'r Fro fod yn **rhydd rhag gwahaniaethu**.
- Bydd dysgwyr yn cael eu cefnogi i'w **galluogi** i gyflawni eu **potensial** wrth ddysgu, mewn amgylchedd sy'n rhydd rhag anfantais, neu'n ei leihau, yn cymryd camau i gwrdd â'u hanghenion ac yn annog cyfranogiad.
- Byddwn yn cefnogi dysgwyr i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i **symud ymlaen** yn llwyddiannus trwy eu bywydau.

Cwmpas a Phwrpas y Polisi

Mae'r Grŵp wedi ymrwymo i ddarparu addysg a hyfforddiant o'r ansawdd orau i'r cymunedau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol o ddysgwyr a chyflogwyr. Bwriad y Grŵp yw y bydd pob dysgwr yn cael y cyfle i wireddu ei lawn botensial, gan ei alluogi i gyflawni'r safonau uchaf yn ei raglenni dysgu. Mae ein hymrwymiad i welliant parhaus, ac i'n prosesau Sicrhau Ansawdd a gwella, yn allweddol i gyflawni ein bwriad.

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i:

- Pob dysgwr o fewn y Grŵp, waeth beth fo'r modd neu'r lleoliad astudio.
- Pob aelod o staff y Grŵp.
- Pob partner a sefydliad masnachfrint.
- Ymwelwyr â'r Grŵp.

Datganiadau Polisi

Mae gwneud y canlynol yn bolisi'r Grŵp:

- Sicrhau bod yr holl staff o fewn y Grŵp yn ymwybodol o'u cyfrifoldeb ar y cyd i wella ansawdd y ddarpariaeth, trwy ddatblygu diwylliant sy'n hunan-fyfyrion, yn onest ac yn dryloyw.
- Gwella ansawdd profiad y dysgwr trwy sefydlu a chynnal systemau ansawdd sydd wedi'u cynllunio i alluogi adolygiad trylwyr a rheolaidd, a gwelliant parhaus yn ansawdd ein cynnig (gan gynnwys arferion addysgu, dysgu ac asesu).

- Darparu mecanweithiau i ddysgwyr, cyflogwyr a rhanddeiliaid allweddol eraill i fynegi eu barn ar ein gwasanaethau, i'w hadborth gael ei ystyried, ac i fod yn rhan o'r broses gwneud penderfyniadau o fewn y Grŵp.
- Gosod, monitro a datblygu targedau priodol a realistig ar gyfer pob maes gweithgaredd a phob fîm o fewn y Grŵp, wedi'u meincnodi lle bo modd.
- Bod yn ymatebol ac yn atebol i'n rhanddeiliaid niferus, gan gynnwys ein dysgwyr, y gymuned leol ac asiantaethau'r llywodraeth.
- Sefydlu a chynnal systemau Sicrhau Ansawdd a gweithdrefnau eraill sy'n galluogi'r Grŵp i werthuso ac adnabod ein cryfderau, meysydd allweddol i'w datblygu, ac ymateb i anghenion gwella yn effeithiol.
- Sicrhau bod staff yn gallu ymateb yn effeithiol i heriau targedau hunanwerthuso a gwelliant parhaus trwy fuddsoddi mewn datblygu sgiliau staff trwy gyfleoedd Datblygiad Proffesiynol Parhaus.
- Sicrhau bod prosesau yn eu lle i rannu arfer dda ym mhob agwedd ar ein gwaith, yn fewnol ac yn allanol (lle bo hynny ar gael), dathlu llwyddiant a gwneud y mwyaf o gyfleoedd i wella ansawdd.

Byddwn yn sicrhau bod dysgwyr ar bob lefel a math o ddarpariaeth yn cael eu cyfeirio'n glir at unrhyw sefydliad neu gorff allanol sy'n goruchwyllo darpariaeth, safonau, disgwyladau neu wneud iawn megis corff dyfarnu, yr ASA neu'r Swyddfa Dyfarnwyr Annibynnol ar gyfer AU (nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr).

Cyfrifoldebau

Bydd y Corff Llywodraethu yn gyfrifol am sicrhau:

- Bod y Polisi yn cael ei adolygu yn rheolaidd (yn unol â thelerau adolygu'r polisi) ac y rhoddir cyngor priodol ar y cynnwys. Mae'r Prif Fwrdd yn cymeradwyo'r polisi.

Mae Uwch Dimau Rheoli'r Grŵp yn gyfrifol am sicrhau:

- Bod trefniadau mewn perthynas â gwelliannau Ansawdd yn effeithiol ar draws y Grŵp.
- Datblygu trefniadau llywodraethu effeithiol ar draws y Grŵp, i sicrhau bod canlyniadau mewn perthynas â'r Polisi hwn a'i weithdrefnau cysylltiedig yn cael eu gweithredu'n briodol i gefnogi gwelliannau yn y ddarpariaeth.

Mae Uwch Staff Ansawdd yn gyfrifol am:

- Sicrhau gweithredu, monitro ac effaith lwyddiannus i'r polisi hwn.
- Sicrhau bod gan bob darparwr perthnasol weithdrefnau a phrosesau Sicrhau Ansawdd a gwella priodol ar waith i gefnogi'r polisi hwn.
- Monitro ac adrodd effeithiol ar bob gweithgaredd sy'n ymwneud â gweithgareddau sicrhau ansawdd.

Bydd yr holl staff ar draws y Grŵp yn:

Rhif Adolygiad:	2
Dyddiad Adolygu	Gorffennaf 2022
Dyddiad Adolygu Nesaf:	Gorffennaf 2024

- Gweithredu'n unol â'r Polisi hwn a gweithdrefnau cysylltiedig gan gynnwys y rhai gan gyrrff dyfarnu, yr ASA neu sefydliadau addysg uwch.
- Mynychu digwyddiadau Datblygiad Proffesiynol Parhaus perthnasol.
- Hysbysu dysgwyr ac ymwelwyr am y polisi a'r gweithdrefnau cysylltiedig a'u cefnogi i gael mynediad at unrhyw gymorth.

Bydd pob dysgwr ar draws y Grŵp yn:

- Mynychu sesiynau anwytho a thiwtorial i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r polisi a'r materion y mae'n eu codi.
- Ymddwyn mewn modd sy'n cefnogi'r Polisi, gan gynnwys codi unrhyw bryderon gyda'r staff addysgu neu gefnogi.
- Darparu adborth trwy lais y dysgwr pan ofynnir amdano.

Datganiad Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Yn unol â gweithdrefnau'r Grŵp, ysgrifennwyd y Polisi hwn gan ystyried effaith unigolion yn unol â'r Ddeddf Cydraddoldeb.

Safonau'r Gymraeg

Mae'r polisi hwn yn rhoi cyfleoedd i unigolion ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg. Mae'r dyletswyddau sy'n cael eu cyflwyno fel rhan o'r Safonau yn golygu na ddylai sefydliadau drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ynghyd â hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg h.y. ei gwneud yn haws i bobl ei defnyddio yn eu bywyd o ddydd i ddydd.

Cyfeiriadau

Mae'r holl bolisiâu, gweithdrefnau a dogfennau eraill o fewn pob darparwr yn y Grŵp yn berthnasol i weithrediad y Polisi Ansawdd.

Canllawiau ASA yn ymwneud â safonau academaidd
Canllawiau safonau academaidd Sefydliadau partner Addysg Uwch

Cyfathrebu a Storio

Cyhoeddir y polisi hwn ar fewnwyd y cwmni.

Bydd y polisi hwn yn cael ei gyfathrebu a'i storio gan bob sefydliad trwy eu sianelau cyfathrebu a rheoli polisi mewnol.

Cymeradwyo, Newid ac Adolygu

Adolygir y polisi hwn bob 2 flynedd.

Rhif Adolygiad:	2
Dyddiad Adolygu	Gorffennaf 2022
Dyddiad Adolygu Nesaf:	Gorffennaf 2024



Dyddiad cymeradwyo:	7 Gorffennaf 2020
Cymeradwywyd gan:	Prif Fwrdd
Dyddiad adolygiad nesaf:	Gorffennaf 2024

Rheolwr Cyfrifol:	Prifathro Cynorthwyol Ansawdd,
Addysgu a Dysgu	
Arweinydd Gweithredol:	Is-Bennaeth Ansawdd a Thaiith y
Dysgwr	
Hygyrch i Fyfyrwyr:	Ydy

Rhif Adolygiad:	2
Dyddiad Adolygu	Gorffennaf 2022
Dyddiad Adolygu Nesaf:	Gorffennaf 2024